Bai pwy?

(Gweld bai / diffyg ymddiriedaeth / dysgu maddau)

10 Awst 1984. Diwrnod i'w gofio yn y gêmau Olympaidd yn Los Angeles. Roedd y stadiwm yn orlawn, 85,000 o bobl, y mwyafrif ohonyn nhw wedi dod i gefnogi eu harwr Mary Decker yn y ras 3,000 metr derfynol. Ym marn y mwyafrif yn y stadiwm Decker oedd yn mynd i ennill a dod â medal aur arall i'w gwlad. Wyth mlynedd ynghynt yn y gêmau Olympaidd ym Montreal doedd hi ddim wedi gallu cystadlu gan ei bod yn cael poenau yn ei choesau a phedair blynedd ynghynt eto yn y gêmau ym Moscow roedd yr Unol Daleithiau wedi gwrthod cystadlu.

Ar y ddau achlysur, dim ond eistedd a gwylio fu ei rhan a hithau'n gwybod ynddi ei hunan y byddai wedi llwyddo i gipio'r fedal aur ar y ddau achlysur. Rhwng 1981 ac 1983 roedd Decker wedi gorchfygu pob un athletwraig yn y rasys 800 a 10,000 metr gan dorri record y byd yn y ras filltir, 5,000 metr a hefyd y 10,000 metr. Felly dim ond mater o amser oedd y gêmau ym 1984 ac o'r diwedd byddai'n derbyn y fedal aur am y tro cyntaf yn ei bywyd. Ei nod yn y gêmau yn Los Angeles oedd cystadlu mewn dwy ras, sef y 1,500 metr a'r 3,000 metr, ond yn anffodus roedd y ddwy ras wedi'u rhoi yn rhy agos at ei gilydd. Byddai wedi blino'n lân ar ôl y ras gyntaf, felly penderfynodd roi ei holl fryd ar y ras 3,000 metr. Er mai'r un a ofnai Decker fwyaf oedd Maricica Puicŵ o Rwmania roedd y wasg wedi penderfynu mai rhwng Decker a Zola Budd y byddai'r frwydr.

Geneth ifanc o Dde Affrica oedd Budd, oedd wedi gwirioni efo Decker ac roedd hyd yn oed llun ohoni yn addurno wal ei hystafell wely. Cynrychioli Prydain oedd Budd, gan nad oedd tîm o Dde Affrica yn cael cymryd rhan yn y gêmau Olympaidd bryd hynny, oherwydd agwedd y wlad honno tuag at bobl dywyll eu croen. Felly roedd Zola Budd yn cystadlu yn erbyn ei heilun yn y rownd derfynol. Yn fuan ar ôl cyrraedd hanner ffordd yn y ras, roedd yna bedwar ceffyl blaen – Budd (Prydain) Decker (U.D.) Puicŵ (Rwmania) a Sly (Prydain). Budd – oedd yn rhedeg yn droednoeth fel arfer – oedd ar y blaen.

Rywsut rywfodd tarodd Decker goes Budd a'i thaflu ymlaen ychydig ond llwyddodd i fynd yn ei blaen. Digwyddodd yr un peth eto a syrthiodd Decker dros goes Budd, a tharo'r llawr mewn poen

mawr. Roedd hi wedi anafu ei chlun. Roedd y dyrfa fawr yn fud. Eu harwr wedi ei hanafu! Dyma ddechrau arni i fwio Zola Budd am weddill y ras. Yn y diwedd, Puicŵ oedd yn fuddugol, Sly yn ail a Budd druan ymhell ar ôl yn y seithfed safle. Wrth iddyn nhw adael y stadiwm dyma Budd yn mynd yn syth at Decker gan ddweud, "Mae'n ddrwg iawn gen i am yr hyn ddigwyddodd. Mae'n ddrwg iawn gen i, yn wir ddrwg." Meddai Decker, "Paid â phoeni siarad efo mi. Dydw i ddim eisiau siarad efo ti, byth, a dyna fo." Roedd Cornelia Burki, o'r Swistir, yn cerdded tu ôl iddyn nhw ac meddai wrth Decker, "Nid bai Zola oedd e, o gwbl, Mary." Ond cyn iddi orffen ei brawddeg roedd Mary wedi neidio iddi, "Ie, ei bai hi oedd o. Rydw i'n gwybod a dyna fo." A cherddodd yn gloff tua'r twnnel. Doedd dim troi arni nad bai Zola oedd y cwbl.

Adnod: Yna dywedodd yr Arglwydd Dduw wrth y wraig, "Pam y gwnaethost hyn?" a dywedodd y wraig, "Y sarff a'm twyllodd, a bwyteais innau." Genesis 3:13

Gweddi: Wnei di faddau i mi, O Dduw, am feio pobl eraill am y pethau rydw i wedi eu gwneud. Amen.

Trafod:

- Pa mor barod ydan ni i feio pobl eraill? Fyddech chi'n dweud mai Zola Budd oedd ar fai mewn difri?
- Pa mor bwysig ydi dysgu maddau i bobl eraill?